



Adroddiad ar adolygiad annibynnol o gynnydd yn

Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ei Fawrhydi (STIEF) y Parc

gan Brif Arolygydd Carchardai EF

9–11 Rhagfyr 2024



Cynnwys

Adran 1	Crynodeb y Prif Arolygydd	3
Adran 2	Prif ganfyddiadau	5
Adran 3	Cynnydd yn erbyn ein pryderon	6
Adran 4	Crynodeb o'r dyfarniadau.....	16
	Atodiad I Gair am yr adroddiad hwn	17
	Atodiad II Geirfa.....	19


Section 1 Crynodeb y Prif Arolygydd

- 1.1 Agorodd yr uned blant yng Ngharchar a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ei Fawrhydi y Parc ym mis Mawrth 2002 fel cyfleuster 28 cell ar gyfer plant rhwng 15 a 18 oed ar remand, ac i ddechrau roedd yn cartrefu plant o Gymru. Mae capasiti a dalgylch llysoedd yr uned wedi ehangu ers hynny ac erbyn hyn mae'n gartref i hyd at 46 o blant sydd wedi'u remandio a'u dedfrydu o lysoedd yng Nghymru a De Orllewin Lloegr.
- 1.2 Adeg yr adolygiad annibynnol hwn o gynnydd (IRP), roedd 31 o blant yn cael eu cartrefu yn y Parc.
- 1.3 Roedd yr ymweliad adolygu hwn yn dilyn y pryderon a godwyd gennym yn ein harolwg diwethaf o STIEF y Parc yn 2023.

Yr hyn a welsom yn yr arolwg diwethaf

- 1.4 Yn ein harolygon blaenorol o STIEF y Parc yn 2022 a 2023, gwnaethom y penderfyniadau canlynol am ganlyniadau i blant.

Ffigur 1: Canlyniadau sefydliad iach STIEF y Parc yn 2022 a 2023



- 1.5 Ar y cyfan, roedd yr uned yn perfformio'n dda, gyda diwylliant cefnogol a oedd yn helpu i ddiogelu canlyniadau da i blant, a chafodd ddyfarniadau 'da' mewn tri o'r pedwar prawf carchar iach. Fodd bynnag, bu dirywiad mewn gweithgarwch pwrpasol. Roedd y contract newydd ar gyfer Parc, o fis Rhagfyr 2022 ymlaen, yn cynnwys newid darparwr addysg. Pan gynhaliwyd yr arolwg nesaf, 10 mis yn ddiweddarach, roedd ansawdd yr addysg wedi dirywio'n sylweddol, o wasanaeth a gafodd sgôr rhagorol gan Estyn ym mis Gorffennaf 2022 i un y barnwyd ei fod yn ddigonol ym mis Hydref 2023.

Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad adolygu hwn

- 1.6 Roedd arweinwyr wedi ymateb yn brydlon i'r pryderon a nodwyd yn arolwg 2023 ac roeddent wedi gwneud cynnydd rhesymol o leiaf ym mhob un o'r wyth a adolygwyd yn ystod yr ymweliad hwn, gyda chynnydd da mewn un. Roedd yr uned yn elwa o dîm arwain gweladwy a rhagweithiol a oedd yn rhoi cyfeiriad clir i'r staff a'r plant. Roedd y diwylliant cefnogol a nodwyd yn yr arolwg yn parhau i fod yn gryfder.
- 1.7 Roedd nifer y plant a oedd yn cael eu gwahanu wedi gostwng ers yr arolwg, yn ogystal â hyd cyfartalog yr amser a dreuliodd wedi'u gwahanu. Roedd goruchwyliaeth yn gryfach ac roedd arweinwyr yn canolbwyntio ar gymell plant i fyw gyda'i gilydd fel un gymuned, a chyfrannodd hyn at y cynnydd da a wnaed. Roedd mwy o adnoddau bellach yn cael eu dyrannu i waith amrywiaeth a chynhwysiant ac roedd hyfforddiant mewnol wedi helpu i fynd i'r afael â'r pryder ynghylch ansawdd trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd (MAPPA; gweler yr Eirfa) ffurflenni rhannu gwybodaeth ac asesiadau rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL).
- 1.8 Roedd y rhan fwyaf o'r pryderon a godwyd yn ystod yr ymweliad hwn yn canolbwyntio ar addysg, gan adlewyrchu'r dirywiad yn y ddarpariaeth a welwyd yn ystod arolwg 2023. Roedd yn galonogol bod Estyn wedi canfod bod cynnydd rhesymol wedi'i wneud gyda phob un o'r pum pryder yn ymwneud ag addysg. Fodd bynnag, roedd angen gwelliant pellach o hyd i sicrhau bod gan blant fynediad at ddarpariaeth addysg dda, neu well.
- 1.9 Roedd y tîm addysg wedi'i staffio'n well erbyn hyn. Roedd plant yn cael 25 awr o addysg bob wythnos mewn dosbarthiadau gallu cymysg, a oedd yn golygu eu bod nhw i gyd yn cael yr un pynciau yn ystod yr wythnos. Fodd bynnag, nid oedd rhai athrawon yn cynllunio'n ddigon da ac, yn rhy aml, roedd gwersi'n cael eu paratoi'n ar gyfer y lefel isaf o allu yn y dosbarth ac roeddent yn gwneud yn siŵr bod dysgwyr mwy galluog hefyd yn cael cyfle i ddatblygu. Nid oedd athrawon ychwaith yn gwerthuso cynnydd unigol yn ddigon da.
- 1.10 Adolygwyd cynnig y cwricwlwm ers yr arolygiad, a chyflwynwyd cymwysterau a oedd yr un mor ddefnyddiol i blant o Gymru a Lloegr. Yn bwysig, roedd y berthynas waith rhwng y darparwr addysg a rheolwyr unedau bellach yn gryfach ac roedd strategaeth ddarllen wedi'i chyflwyno y gallai staff yr uned chwarae rhan ynddi.
- 1.11 Roedd arweinwyr, gan gynnwys y rhai sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth addysg, yn cael eu llongyfarch ar faint o waith roeddent wedi'i wneud a'r hyn roeddent wedi'i gyflawni ers yr arolygiad.

Charlie Taylor


Prif Arolygydd Carchardai EF

Rhagfyr 2024

Section 2 Prif ganfyddiadau

- 2.1 Yn ystod yr ymweliad adolygiad annibynnol o gynnydd hwn, aethom ar drywydd wyth o bryderon o'n harolwg diweddaraf ym mis Hydref 2023. Roeddem o'r farn bod cynnydd da mewn un pryder a chynnydd rhesymol mewn saith pryder.

Ffigur 2: Cynnydd ar bryderon o arolwg mis Hydref 2023 (n=8)



Arferion cadarnhaol nodedig

- 2.2 Rydym yn diffinio arferion cadarnhaol nodedig fel:

Tystiolaeth bod ein disgwyliadau'n cael eu bodloni i sicrhau canlyniadau arbennig o dda i garcharorion, a/neu ddulliau arbennig o wreiddiol neu greadigol o ddatrys problemau.

- 2.3 Ni ddaeth yr arolygwyr o hyd i unrhyw enghraifft o arferion cadarnhaol nodedig yn ystod yr adolygiad annibynnol hwn o gynnydd.

Section 3 Cynnydd yn erbyn ein pryderon

Mae'r canlynol yn rhoi disgrifiad byr o'n canfyddiadau mewn perthynas â phob pryder yr aethpwyd ar eu trywydd ar ôl yr arolwg llawn yn 2023.

Gwahanu

Pryder: Roedd rhai plant wedi cael eu gwahanu am ormod o amser ac roedd eu harferion yn agored i gyfyngiadau gormodol. Roedd nifer y plant a oedd wedi'u gwahanu o dan Reol 49 y Sefydliad Troseddwyd Ifanc wedi cynyddu ac roedd eu goruchwyliaeth wedi dirywio.

- 3.1 Roedd nifer y plant a oedd wedi'u gwahanu a'r amser cyfartalog yr oeddent wedi'i dreulio ar wahân wedi gostwng. Yn ystod y flwyddyn flaenorol, roedd 28 o blant wedi cael eu gwahanu am 12 diwrnod ar gyfartaledd, o'i gymharu â 44 o blant wedi'u gwahanu am 44 diwrnod ar gyfartaledd dros yr un cyfnod cyn yr arolygiad.
- 3.2 Roedd y drefn ar gyfer plant sydd wedi'u gwahanu yn dal yn amrywiol, fel arfer oherwydd natur y digwyddiadau a oedd wedi arwain at eu gwahanu a'r risg barhaus roeddent yn ei pheri. Treuliodd rhai plant a oedd wedi'u gwahanu dros wyth awr yn cymryd rhan mewn gweithgarwch dyddiol y tu allan i'r gell, tra mai dim ond dwy awr oedd gan eraill. Roedd arweinwyr yn parhau i oruchwyllo trefn ddyddiol pob plentyn yng nghyfarfodydd briffio'r bore, i sicrhau y glynir wrth y lleiafswm o ddwy awr ac i adolygu opsiynau i gynyddu hyn.
- 3.3 Roedd y plant yn cael eu hannog i weithio gyda'r tîm datrys gwrthdaro fel rhan o'u cynlluniau ail-integreiddio. Nod yr arweinwyr oedd cymell cynifer o blant â phosibl, gan gynnwys y rheini a oedd yn ail-integreiddio, i fyw fel un gymuned 'gytûn'. Roedd y plant yn gwerthfawrogi'r drefn yr oedd hyn yn ei roi iddynt ac roedd rhai wedi cyfeirio eu hunain am waith datrys gwrthdaro i fynd i'r afael â materion a oedd yn dod i'r amlwg gydag eraill cyn i'r rhain waethgu.
- 3.4 Roedd achosion yn cael eu rheoli'n fwy cyson nag o'r blaen, gyda phob plentyn a oedd wedi'i wahanu yn cael ei neilltuo i un o'r uwch reolwyr. Roedd gwaith papur gwahanu a sicrhau ansawdd wedi cael ei adolygu'n ddiweddar.
- 3.5 Roedd cyfarfod ymyriadau diogelwch wythnosol wedi'i gyflwyno, i helpu i ganfod ac ymyrryd yn gynnar gyda phlant roedd eu hymddygiad yn arwain at eu gwahanu. Roedd y tîm seicoleg yn rhan annatod o'r cyfarfod amlddisgyblaethol hwn ac yn helpu gyda chynllunio prosesau ail-integreiddio a deall ymddygiad plant, gydag asesiadau unigol o'u risgiau a'u hanghenion tymor byr.
- 3.6 Nid oedd yr uned cefnogaeth ddwys wedi cael ei defnyddio ers yr arolwg.

3.7 Roeddem o'r farn bod YOI wedi gwneud cynnydd da yn y maes hwn.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Pryder: Nid oedd hyrwyddo cydraddoldeb wedi cael ei flaenoriaethu a chafodd ei danseilio gan ddiffyg staffio cyson i gydlynu a gyrru'r gwaith. Roedd hyn yn llesteirio dealltwriaeth arweinwyr o ganfyddiadau plant yn y maes hwn.

- 3.8 Roedd cefnogaeth i waith amrywiaeth a chynhwysiant, a blaenoriaethu'r gwaith hwn, wedi cael ei gryfhau. Roedd diffyg staff Amrywiaeth a Chynhwysiant cyson wedi cael ei gywiro ac roedd strwythur staffio clir ar gyfer y gwaith hwn a oedd yn cynnwys swyddog penodol.
- 3.9 Cynhaliwyd fforymau ymgynghori bob mis. Er bod lle i gynnwys mwy o blant yn y rhain, roedd presenoldeb y swyddog Amrywiaeth a Chynhwysiant ar yr uned yn ei gwneud yn hawdd i blant godi unrhyw broblemau neu awgrymiadau. Cymerwyd camau dilynol mewn ymateb i adborth gan blant.
- 3.10 Roedd penodi nifer fach o gynrychiolwyr plant ym maes Amrywiaeth a Chynhwysiant hefyd yn gadarnhaol. Roedd aelodau'r uwch dîm arwain yn gyfrifol am wahanol nodweddion gwarchodedig (gweler yr Eirfa) ac roedd capasiti i ddatblygu eu mewnbwn ymhellach gyda'r grwpiau hyn.
- 3.11 Dadansoddwyd data a drafodwyd mewn cyfarfodydd ar gyfer anghymesuredd ac roedd tystiolaeth o ymchwiliad pellach pan nodwyd hyn. Roedd hyn yn cynnwys cael mewnbwn gan blant ar feysydd fel defnyddio grym. Roedd maint bach y boblogaeth yn ei gwneud yn anoddach canfod tueddiadau neu batrymau. Fodd bynnag, roedd gan staff a rheolwyr wybodaeth dda am y plant, ac yn ymarferol gallent fel arfer gysylltu cynnydd neu ddirywiad yn y data ag ymddygiad un neu fwy o blant unigol.
- 3.12 Roedd digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o wahanol nodweddion gwarchodedig wedi cael eu cynnal bob mis. Roedd gwell cysylltiadau â thîm Amrywiaeth a Chynhwysiant y safle i oedolion yn golygu bod mwy o gynllunio ar y cyd yn bosibl, ac roedd rhai digwyddiadau a oedd yn cael eu trefnu yn y safle i oedolion – er enghraifft, yn ystod Mis Hanes Pobl Dduon – wedi cael eu cynnal yn yr uned plant hefyd. Roedd y tîm addysg yn parhau i gefnogi gwaith Amrywiaeth a Chynhwysiant.



Arddangos amrywiaeth a chynhwysiant mewn ystafell ddosbarth

- 3.13 Roeddem o'r farn bod YOI wedi gwneud cynnydd rhesymol yn y maes hwn.

Gweithgareddau addysg, sgiliau a gwaith



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn cael ei hysgrifennu gan arolygwyr Estyn.

Pryder: Roedd anghysondebau o ran lleoli staff addysg, a diffygion o ran ansawdd yr addysgu a'r asesu. Nid oedd digon o oruchwyliaeth o ran datblygiad dysgwyr; roedd llawer wedi ymddieithrio ac wedi gwneud cynnydd araf at achrediau, ac roedd cyrhaeddiad mewn ychydig o bynciau yn isel.

- 3.14 Roedd athrawon yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu eu sgiliau addysgu a darparu addysg briodol i ddysgwyr yn y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yng Ngharchar a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ei Fawrhydi y Parc. Roeddent wedi datblygu perthynas broffesiynol gadarn gyda dysgwyr. Fe wnaethant helpu dysgwyr yn dda i ddeall yr ymddygiadau sydd eu hangen arnynt i wneud cynnydd o ran dysgu a'r sgiliau rhyngpersonol sydd eu hangen arnynt i fod yn gyflogadwy.

- 3.15 Yn ystod yr ymweliad hwn, dangosodd llawer o ddysgwyr ymddygiad cadarnhaol yn ystod y sesiynau. Roeddent yn trin staff ac ymwelwyr â pharch ac yn dilyn cyfarwyddiadau. Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn setlo'n gyflym i'w gwaith ac yn cydymffurfio yn ystod gwersi. Yn yr achosion gorau, roedd y dysgwyr yn cynnig cymorth cadarnhaol i'w gilydd gyda'u dysgu. Er enghraifft, fe wnaethant esbonio'r dulliau sydd eu hangen i gwblhau tasg mathemateg. Fodd bynnag, roedd rhai dysgwyr wedi ymddieithrio yn ystod cyfnodau estynedig o fewnbwn gan athrawon neu wedi copïo gwaith oddi wrth gyfoedion neu staff.
- 3.16 Roedd y rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio'n addas ar gyfer gwersi, gan ddarparu amrywiaeth o weithgareddau a gwaith a oedd yn helpu i hyrwyddo dysgu a dal i ganolbwyntio. Fodd bynnag, mewn tua hanner y gwersi, nid oedd athrawon yn cynllunio'n ddigon da. Er enghraifft, roeddent yn cynllunio gweithgareddau nad oeddent yn herio dysgwyr yn ddigonol, yn diwallu eu hanghenion dysgu unigol neu'n datblygu eu sgiliau'n raddol. Roedd hyn yn cyfyngu ar gynnydd dysgwyr mewn sesiynau. Nid oedd cwestiynau i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau meddwl wedi'u datblygu'n ddigonol. Er bod athrawon yn dangos gwybodaeth gadarn a chyfredol am eu pynciau, nid oeddent bob amser yn helpu dysgwyr i ddeall yn ddigon clir sut y gellid cymhwyso eu dysgu mewn cyd-destunau bywyd go iawn. O ganlyniad, nid oedd dysgwyr bob amser yn gweld gwerth eu dysgu.
- 3.17 Mewn sesiynau dinasyddiaeth, datblygodd y rhan fwyaf o ddysgwyr wybodaeth sylfaenol am ddigwyddiadau'r byd a sut maent yn berthnasol i'w bywydau a'u profiadau eu hunain. Mewn sesiynau cyflogadwyedd, datblygodd llawer o ddysgwyr ddealltwriaeth gadarn o'r sgiliau cymdeithasol sydd eu hangen yn y gweithle, fel sut i gyfathrebu'n gadarnhaol yn ystod cyflwyniad. Roedd y dysgwyr yn dechrau datblygu sgiliau byw'n iach pwysig drwy wneud ymarfer corff dan arweiniad mewn sesiynau yn y gampfa.



Ystafell Ddosbarth Cyflogadwyedd

- 3.18 Dros amser, roedd llawer o ddysgwyr yn gweithio'n briodol at achrediad. Fodd bynnag, roedd y cyfraddau cwblhau mewn llythrennedd a rhifedd wedi arafu. Roedd datblygiad dysgwyr o sgiliau digidol yn gyfyngedig.
- 3.19 Roedd athrawon yn defnyddio asesiadau diagnostig yn briodol i asesu eu manau cychwyn ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol. Mewn rhai achosion, roedd athrawon yn rhoi adborth llafar defnyddiol, ond, yn gyffredinol, nid oedd athrawon yn rhoi adborth ffurfiannol cyson i ddysgwyr. Roedd dysgwyr yn elwa o diwtorialau wythnosol i adolygu eu dysgu, yn rhannol drwy adolygiadau o gynlluniau dysgu a gwaith unigol. Fodd bynnag, roedd ansawdd y cynlluniau dysgu a gwaith unigol yn anghyson. Yn rhy aml, roedd adolygiadau cynnydd yn canolbwyntio ar agweddau at ddysgu a chymwysterau heb ystyried cynnydd at dargedau dysgu tymor byrrach. Mewn rhai achosion, nid oedd yr adroddiadau'n gyson unigol i'r dysgwr. Nid oedd y defnydd o dargedau i helpu dysgwyr i ddeall eu cynnydd ac i'w herio wedi'i ddatblygu'n ddigonol.
- 3.20 Roeddem o'r farn bod YOI wedi gwneud cynnydd rhesymol yn y maes hwn.

Pryder: Roedd trefniadau partneriaeth a rhanddeiliaid allweddol wedi bod yn araf i gefnogi'r broses o drosglwyddo darparwyr addysg yn llwyddiannus. Dim ond yn ddiweddar y gweithredwyd trefniadau partneriaeth i gefnogi gwelliannau o ran ansawdd y ddarpariaeth addysg neu i wella'r cwricwlwm.

- 3.21 Roedd cyflwyno bwrdd partneriaeth strategol bob mis, lle'r oedd pennaeth dysgu a phennaeth yr uned yn eistedd arno, a chyfarfodydd gweithredol bob wythnos rhwng partneriaid wedi arwain at well dealltwriaeth o heriau a gweithredu mwy prydlon ac effeithiol.
- 3.22 Roedd y staffio wedi sefydlogi. Roedd y tîm addysg wedi dechrau cryfhau perthnasoedd a chyfathrebu â staff gweithredol, er mwyn hyrwyddo profiadau addysgol cadarnhaol a lleihau unrhyw darfu ar ddysgu. Dywedodd athrawon eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi'n briodol gan arweinwyr.
- 3.23 Roedd cyfarfodydd staff wythnosol a chyfleoedd rheolaidd ar gyfer datblygiad proffesiynol, yn fewnol ac yn allanol, gyda Choleg Gŵyr a Novus wedi dechrau helpu athrawon i ddatblygu mwy o hyder a sgiliau addysgu wrth weithio gyda phobl ifanc ag anghenion cymhleth ac i rannu arferion gydag athrawon eraill dysgwyr tebyg. Roedd staff addysgu, yn enwedig athrawon ar ddechrau eu gyrfa, yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd wedi'u hariannu i wella eu cymwysterau a'u sgiliau addysgu. Roedd cyfathrebu rheolaidd gyda chydweithwyr o Goleg Gŵyr yn darparu cefnogaeth a her werthfawr i arweinwyr addysgol yn yr uned.
- 3.24 Gan weithio gyda phartneriaid, roedd arweinwyr addysg wedi cyflwyno gweithdrefnau sicrhau ansawdd newydd. Roedd athrawon yn gwerthfawrogi'r datblygiadau hyn, gan fod y rhain yn dechrau arwain at

gyd-ddealltwriaeth o safonau a thargedau datblygiad proffesiynol ar gyfer gwella. Roedd arweinwyr wedi adolygu'r cwricwlwm a'r cymwysterau a gynigiwyd i ddysgwyr, gan ganolbwyntio ar wella'r cynnig galwedigaethol.

- 3.25 Cyfrannodd y datblygiadau hyn yn dda at greu ethos tîm cryf rhwng partneriaid ac ymdeimlad cyffredin o bwrpas. Fodd bynnag, sefydlwyd llawer o'r camau gweithredu yn y maes hwn yn ddiweddar, ac roedd yn rhy fuan i werthuso eu heffaith ar ganlyniadau dysgwyr yn llawn.
- 3.26 Roeddem o'r farn bod YOI wedi gwneud cynnydd rhesymol yn y maes hwn.

Pryder: Nid oedd strategaeth ddarllen. Nid oedd y llyfrgell yn gweithio gydag addysg i hyrwyddo llythrennedd ac ni allai plant a oedd eisiau darllen chwilio am lyfr o'u dewis a'i gael.

- 3.27 Roedd arweinwyr wedi llunio strategaeth ddarllen ar gyfer y carchar cyfan, gan weithredu amrywiaeth o ddulliau i gefnogi ymgysylltu a mwynhau darllen. Roedd y dysgwyr a oedd yn cyrraedd y Sefydliad Troseddwy'r Ifanc yn cael llyfr ar gyfer eu noson gyntaf a gwybodaeth am gael gafael ar ddeunydd darllen pellach. Roedd llyfrau ym mhob ystafell ddosbarth ac ardal breswyl. Roedd yr holl bobl ifanc yn cael llyfr newydd bob mis a oedd yn cael ei ddarllen a'i drafod mewn ychydig o sesiynau addysg, ac ar adeiniau gan bencampwyr darllen yn ystod sesiynau darllen mewn grwpiau ac mewn parau. Roedd 'darllenydd preswyl' yn hyrwyddo darllen er pleser ar draws y carchar drwy weithgareddau fel grwpiau llyfrau wythnosol.
- 3.28 Roedd llyfrgell y Sefydliad Troseddwy'r Ifanc yn groesawgar ac wedi'i stocio'n dda, gyda deunyddiau diddorol sy'n briodol i lefelau gallu'r dysgwyr. Roedd y staff yn defnyddio'r llyfrgell ar gyfer sesiynau darllen fel rhan o'r cwricwlwm Saesneg, a gallai'r dysgwyr archebu deunyddiau darllen i gael eu danfon i'w celloedd. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi arwain at newid sylweddol yn nifer y llyfrau a archebwyd gan ddysgwyr o'r llyfrgell.
- 3.29 Cynlluniwyd y strategaethau hyn i normaleiddio darllen fel rhan o fywyd bob dydd, a dywedodd rhai dysgwyr eu bod wedi darllen llyfr o glawr i glawr am y tro cyntaf ers cyrraedd y Sefydliad Troseddwy'r Ifanc.
- 3.30 Aseswyd gallu darllen dysgwyr â sgiliau llythrennedd gwan a gwnaethant gymryd rhan mewn ymyriadau priodol. Roedd yr holl staff addysg wedi cael rhywfaint o hyfforddiant sylfaenol ar ddarparu cyfleoedd i ddarllen fel rhan o ddysgu trawsgwricwlaidd ac roedd y rhain wedi cael eu nodi mewn cynlluniau dysgu. Fodd bynnag, nid oedd staff yn defnyddio strategaethau mewn gwersi i gefnogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau deall yn ddigon da. Roedd hyn hefyd yn wir am weithgareddau a gynlluniwyd i helpu dysgwyr i ddarllen 'llyfr y mis'.
- 3.31 Yn gyffredinol, roedd diffyg monitro cadarn o effaith ymyriadau, strategaethau addysgu a gweithgareddau eraill i hyrwyddo cyfranogiad

mewn darllen. Roedd hyn yn llesteirio gallu arweinwyr i nodi beth oedd yn gweithio'n dda neu i fireinio dulliau gweithredu.



Llyfrgell

- 3.32 Roeddem o'r farn bod YOI wedi gwneud cynnydd rhesymol yn y maes hwn.

Pryder: Nid oedd y cwricwlwm addysg yn ystyried y farchnad lafur nac anghenion dysgwyr yn ddigon da. Nid oedd yn canolbwyntio'n ddigonol ar elfennau galwedigaethol, ac nid oedd gan yr adran addysg fawr o ran yn y gwaith o ddatblygu llwybrau addysg i blant.

- 3.33 Ers yr arolwg craidd, roedd arweinwyr wedi adolygu'r cwricwlwm a oedd ar gael yn y Sefydliad Troseddwy'r Ifanc gan ystyried gwybodaeth bwysig am y farchnad gyflogaeth. Roedd hyn wedi cael ei ystyried ar lefel leol a chenedlaethol, yn seiliedig ar gyrchfan arferol y rhai sy'n gadael. Ar ben hynny, roedd arweinwyr wedi gwneud newidiadau i'r cymwysterau a'r achrediadau a gynigiwyd i ddysgwyr, er mwyn cryfhau'r sgiliau cyflogadwyedd y mae dysgwyr wedi'u datblygu ar draws y cwricwlwm cyfan a sicrhau y byddai'r cymwysterau hyn yn cael eu cydnabod yng nghyrchfan pob dysgwr. Fodd bynnag, roedd hi'n rhy gynnar i weld effaith lawn y newidiadau hyn.
- 3.34 Roedd arweinwyr yn datblygu'r tîm staffio a'r amgylchedd dysgu, er mwyn gwella'r arlwy addysgol eang i ddysgwyr, gan gynnwys cyflwyno cynnig galwedigaethol drwy ddatblygu gweithdy barbwr newydd. Fodd bynnag, ar adeg ein hymweliad, roedd y gweithdy'n dal i gael ei sefydlu. Roedd hyn yn golygu bod y cynnig galwedigaethol i ddysgwyr yn y Sefydliad Troseddwy'r Ifanc yn dal yn annigonol.

- 3.35 Nid yw'r Sefydliad Troseddwy'r Ifanc yn cynnig llwybrau unigol i ddysgwyr mwyach. Yn hytrach, roedd yr holl ddysgwyr yn defnyddio'r un meysydd pwnc yn ystod yr wythnos. O ganlyniad, nid oedd llawer o darfu ar ddysgu pan oedd dysgwyr yn newid grwpiau oherwydd problemau cydnawsedd. Roedd camau gweithredu, megis trefniadau gweithio newydd gyda staff gweithredol, a darparu ystafell staff newydd i'r athrawon, yn helpu athrawon i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u helpu i rannu syniadau bob dydd.
- 3.36 Roedd dysgwyr yn elwa o addysg amser llawn. Roeddent yn cael 25 awr o addysg bob wythnos. I lawer o ddysgwyr, roedd hyn yn gynydd sylweddol yn eu hamser mewn addysg ers eu lleoliad diwethaf. Roedd llawer o ddysgwyr yn mynychu'n dda ac roedd lefelau absenoldeb heb awdurdod yn isel.
- 3.37 Roedd cynnig y cwricwlwm wedi'i gryfhau i gynnwys addysg bersonol, iechyd a chymdeithasol fanylach, sgiliau cyflogadwyedd, cerddoriaeth a darpariaeth ar gyfer y Gymraeg. Yn ogystal â hyn, roedd dysgwyr wedi elwa o sesiynau tiwtorial bob wythnos i roi adborth ar eu profiad fel dysgwyr ac i fyfyrio ar eu cynnydd. Yn ddiweddar iawn, roedd dysgwyr wedi dechrau cael mynediad at ddysgu ar-lein drwy system ddiogel. Roedd llawer o'r gwaith hwn wedi cael ei sefydlu'n ddiweddar ac roedd yn rhy fuan i werthuso ei effaith.
- 3.38 Roedd y dysgwyr wedi elwa o amrywiaeth eang o weithgareddau cyfoethogi, gan gynnwys digwyddiadau ar thema cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer pob mis.
- 3.39 Roeddem o'r farn bod YOI wedi gwneud cynnydd rhesymol yn y maes hwn.

Pryder: Nid oedd hunan-werthuso dysgu a sgiliau, gan gynnwys y defnydd o ddata, yn ddigon da i nodi meysydd i'w gwella.

- 3.40 Roedd arweinwyr wedi cyflwyno calendr sicrhau ansawdd newydd, gyda dulliau addas i yrru blaenoriaethau gwella ymlaen. Fel rhan o'r dull diwygiedig hwn, roeddent wedi rhoi ystod o brosesau hunanwerthuso ar waith i asesu ansawdd y dulliau addysgu gan ddefnyddio tystiolaeth uniongyrchol.
- 3.41 Roedd arweinwyr wedi defnyddio amrywiaeth eang o ddata defnyddiol i fonitro cyflymder cynnydd dysgwyr at achrediadau a chymwysterau, a'u cyraeddiadau. Roeddent yn defnyddio'r data hwn yn dda i nodi llinellau ymholi fel rhan o adolygiadau o addysgu a chynnydd grwpiau o ddisgyblion a oedd mewn perygl o ganlyniadau andwyol, fel disgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig neu ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Roedd yr wybodaeth hon wedi cyfrannu at raglen ddysgu broffesiynol yn y dyfodol i gefnogi gwell cyrhaeddiad ymysg dysgwyr lleiafrifoedd ethnig. Er bod gwybodaeth asesu yn cael ei defnyddio i lywio cynlluniau dysgu a gwaith unigol, roeddent yn amrywio o ran ansawdd ac nid oedd ansawdd y rhain wedi cael eu sicrhau'n ddigon

cadarn. Roedd hyn yn cyfyngu ar ba mor ddefnyddiol oeddent wrth lywio dulliau addysgu ac olrhain cynnydd dysgwyr.

- 3.42 Roedd arsylwadau uniongyrchol o'r addysgu'n darparu gwybodaeth berthnasol am ymgysylltiad dysgwyr a gwaith cynllunio athrawon. Roedd sesiynau gwirio rheolaidd gyda dysgwyr hefyd yn helpu i nodi meysydd i'w gwella, yn enwedig yn y cwricwlwm a gynigir. Ynghyd â dadansoddiadau data, roedd y dulliau hunanwerthuso hyn yn helpu arweinwyr i lunio dealltwriaeth gyffredinol o'r prif gryfderau a meysydd i'w datblygu mewn addysgu a'r cwricwlwm. Roedd arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol i flaenoriaethu dysgu a datblygiad proffesiynol staff, a rhannu arferion effeithiol. Fodd bynnag, roedd arsylwadau uniongyrchol o addysgu yn aml yn canolbwyntio ar fodolaeth y ddarpariaeth yn hytrach na'r ansawdd. Felly, nid oedd arweinwyr yn gwerthuso sut mae strategaethau cynllunio neu addysgu tymor byr athrawon yn effeithio ar gynnydd neu ddatblygiad sgiliau dysgwyr yn ddigon manwl.
- 3.43 Roeddem o'r farn bod YOI wedi gwneud cynnydd rhesymol yn y maes hwn.

Cyn-rhyddhau ac ailsefydlu

Pryder: Roedd rhai asesiadau risg ROTL ac adroddiadau rhannu gwybodaeth MAPPA o ansawdd gwael.

- 3.44 Yn yr arolwg, gwelsom fod angen gwella'r dadansoddiad o wybodaeth mewn rhai asesiadau risg ROTL ac adroddiadau rhannu gwybodaeth MAPPA. Ers hynny, roedd hyfforddiant mewnol wedi rhannu arferion da o fewn y tîm ac wedi egluro i'r ymarferwyr a oedd wedi paratoi'r dogfennau hyn y lefel a'r math o ddadansoddiad oedd ei angen.
- 3.45 Roedd disgwyl i drafodaeth ar y risg a nodwyd, a sut y gellid ei lliniaru, gael ei chynnwys yn yr holl asesiadau ROTL ac adroddiadau MAPPA, ac roedd prosesau sicrwydd wedi cael eu hadolygu i adlewyrchu'r disgwyliadau hyn.
- 3.46 Roedd cyfleoedd i aelodau'r tîm ailsefydlu gael arbenigedd mewn cwblhau asesiadau ROTL a ffurflenni rhannu gwybodaeth MAPPA yn gyfyngedig oherwydd y nifer fach o blant a oedd yn gymwys i gael ROTL neu'n agos at gael eu rhyddhau gyda throsedd MAPPA. Roedd hyn yn ei gwneud yn anoddach atgyfnerthu'r hyfforddiant a ddarparwyd.
- 3.47 Roedd gwaith papur ROTL a ffurflenni rhannu gwybodaeth MAPPA a adolygwyd gennym yn ystod yr ymweliad hwn yn dangos rhywfaint o ddadansoddiad o ymddygiad carchar, yn hytrach na dim ond ei ddisgrifio, gan wneud cymariaethau ag ymddygiad sy'n gysylltiedig â throseddu ac agweddau sylfaenol – er enghraifft, 'nid oedd bob amser wedi ymateb yn dda pan oedd rhywun yn dweud na yn y ddalfa'. Roedd mewnbyn partneriaid allanol, fel timau troseddau ieuencid a heddluoedd, bellach wedi'i nodi'n gliriach yn y dogfennau.

3.48 Roeddem o'r farn bod YOI wedi gwneud cynnydd rhesymol yn y maes hwn.

Section 4 Crynodeb o'r dyfarniadau

Rhestr o bryderon yr aethpwyd ar eu trywydd yn ystod yr ymweliad hwn a'r dyfarniadau a wnaed.

Pryderon

Roedd rhai plant wedi cael eu gwahanu am ormod o amser ac roedd eu harferion yn agored i gyfyngiadau gormodol. Roedd nifer y plant a oedd wedi'u gwahanu o dan Reol 49 y Sefydliad Troseddwyd Ifanc wedi cynyddu ac roedd eu goruchwyliaeth wedi dirywio.

Cynnydd da

Nid oedd hyrwyddo cydraddoldeb wedi cael ei flaenoriaethu a chafodd ei danseilio gan ddiffyg staffio cyson i gydlynu a gyrru'r gwaith. Roedd hyn yn llesteirio dealltwriaeth arweinwyr o ganfyddiadau plant yn y maes hwn.

Cynnydd rhesymol

Roedd anghysondebau o ran lleoli staff addysg, a diffygion o ran ansawdd yr addysgu a'r asesu. Nid oedd digon o oruchwyliaeth o ran datblygiad dysgwyr; roedd llawer wedi ymddieithrio ac wedi gwneud cynnydd araf at achrediadau, ac roedd cyrhaeddiad mewn ychydig o bynciau yn isel.

Cynnydd rhesymol

Roedd trefniadau partneriaeth a rhanddeiliaid allweddol wedi bod yn araf i gefnogi'r broses o drosglwyddo darparwyr addysg yn llwyddiannus. Dim ond yn ddiweddar y gweithredwyd trefniadau partneriaeth i gefnogi gwelliannau o ran ansawdd y ddarpariaeth addysg neu i wella'r cwricwlwm.

Cynnydd rhesymol

Nid oedd strategaeth ddarllen. Nid oedd y llyfrgell yn gweithio gydag addysg i hyrwyddo llythrennedd ac ni allai plant a oedd eisiau darllen chwilio am lyfr o'u dewis a'i gael.

Cynnydd rhesymol

Nid oedd y cwricwlwm addysg yn ystyried y farchnad lafur nac anghenion dysgwyr yn ddigon da. Nid oedd yn canolbwyntio'n ddigonol ar elfennau galwedigaethol, ac nid oedd gan yr adran addysg fawr o ran yn y gwaith o ddatblygu llwybrau addysg i blant.

Cynnydd rhesymol

Nid oedd hunan-werthuso dysgu a sgiliau, gan gynnwys y defnydd o ddata, yn ddigon da i nodi meysydd i'w gwella.

Cynnydd rhesymol

Roedd rhai asesiadau risg ROTL ac adroddiadau rhannu gwybodaeth MAPPA o ansawdd gwael.

Cynnydd rhesymol

Appendix I Gair am yr adroddiad hwn

Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn sefydliad annibynnol, statudol sy'n adrodd ar driniaeth ac amodau'r rhai sy'n cael eu cadw mewn carchardai, sefydliadau troseddwy'r ifanc, canolfannau hyfforddi diogel, cyfleusterau cadw mewn fudwyr, dalfa'r llysoedd a dalfeydd milwrol.

Mae pob ymweliad a wneir gan Arolygiaeth Carchardai EF yn cyfrannu at ymateb y DU i'w rhwymedigaethau rhyngwladol dan y Protocol Dewisol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT). Mae OPCAT yn mynnu bod cyrff annibynnol yn ymweld yn rheolaidd â phob man sy'n cadw pobl yn gaeth. Yr enw a roddir am hyn yw Mekanwaith Atal Cenedlaethol (NPM) ac mae'n monitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer y rhai sy'n cael eu cadw'n gaeth. Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn un o nifer o gyrff sy'n ffurfio'r Mekanwaith Atal Cenedlaethol yn y DU.

Mae adolygiadau annibynnol o gynnydd wedi'u cynllunio i wella atebolrwydd i weinidogion am y cynnydd y mae carchardai'n ei wneud at fynd i'r afael â phryderon Arolygiaeth Carchardai EF rhwng arolygiadau. Cynhelir yr adolygiadau yma yn ôl disgrisiwn y Prif Arolygydd, pan fydd arolygiad llawn yn awgrymu y byddai'r carchar yn elwa o graffu ychwanegol ac yn canolbwyntio ar nifer cyfyngedig o'r pryderon a godwyd yn yr arolygiad. Felly, nid yw adolygiadau annibynnol o gynnydd yn arwain at asesiadau yn erbyn ein profion carchar iach. Mae profion carchar iach Arolygiaeth Carchardai EF yn cynnwys diogelwch, parch, gweithgarwch pwrpasol a chynllunio camau adsefydlu a rhyddhau. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan: [Disgwyliadau – Arolygiaeth Carchardai EF \(justiceinspectorates.gov.uk\)](https://justiceinspectorates.gov.uk)

Nodau'r Adolygiadau Annibynnol o Gynnydd yw:

- asesu cynnydd yn erbyn y flaenoriaeth a ddewiswyd a'r prif bryderon
- cefnogi gwelliant
- nodi unrhyw anawsterau sy'n dod i'r amlwg neu ddiffyg cynnydd yn gynnar
- asesu digonolrwydd yr ymateb o ran arwain a rheoli i'n pryderon yn yr arolygiad llawn.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys crynodeb gan y Prif Arolygydd a chofnod byr o'n canfyddiadau mewn perthynas â phob argymhelliad rydym wedi'i ddilyn. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r darlennydd gyfeirio at adroddiad yr arolygiad llawn a gynhaliwyd ym mis Hydref 2023 i gael rhagor o fanylion am y canfyddiadau gwreiddiol (ar gael ar ein gwefan yn [Ein Hadroddiadau – Arolygiaeth Carchardai EF \(justiceinspectorates.gov.uk\)](https://justiceinspectorates.gov.uk)).

Methodoleg yr Adolygiad Annibynnol o Gynnydd

Mae'r adolygiadau'n cael eu cyhoeddi o leiaf dri mis ymlaen llaw ac yn cael eu cynnal rhwng wyth a 12 mis ar ôl arolwg llawn. Pan fyddwn yn cyhoeddi adolygiad annibynnol o gynnydd, rydym yn nodi pa bryderon rydym yn bwriadu eu holrhain (dim mwy na 15 fel arfer). Yn dibynnu ar y pryderon sydd i'w dilyn, gellir cynnal ymweliadau Adolygiadau Annibynnol o Gynnydd ar y cyd ag Ofsted

(Lloegr), Estyn (Cymru), y Comisiwn Ansawdd Gofal a'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol. Mae'r gwaith ar y cyd hwn yn sicrhau bod gwybodaeth arbenigol yn cael ei defnyddio ac yn osgoi sawl ymweliad arolygu.

Yn ystod ein hymweliad tri diwrnod, rydym yn casglu amrywiaeth o dystiolaeth am y cynnydd o ran gweithredu pob pryder a ddewiswyd. Mae ffynonellau tystiolaeth yn cynnwys arsylwi, trafodaethau â charcharorion, staff a thrydydd partïon perthnasol, dogfennau a data.

Mae pob pryder sy'n cael ei olrhain gan Arolygiaeth Carchardai EF yn ystod adolygiad yn cael un o bedwar dyfarniad cynnydd:

Dim cynnydd ystyrion

Nid oedd rheolwyr eto wedi llunio, darparu adnoddau na dechrau rhoi cynllun gwella realistig ar waith i fynd i'r afael â'r pryder hwn.

Cynnydd annigonol

Roedd rheolwyr wedi dechrau cyflwyno strategaeth wella realistig i fynd i'r afael â'r pryder hwn ond nid oedd y camau a gymerwyd ers ein harolygiad wedi arwain eto at ddigon o dystiolaeth o gynnydd (er enghraifft, systemau a phrosesau sydd wedi'u gwreiddio'n ac sy'n well).

Cynnydd rhesymol

Roedd rheolwyr yn rhoi strategaeth wella realistig ar waith i fynd i'r afael â'r pryder hwn ac roedd dystiolaeth o gynnydd (er enghraifft, systemau a phrosesau gwell a chadarn) a/neu dystiolaeth gynnar o rai yn gwella canlyniadau i garcharorion.

Cynnydd da

Roedd rheolwyr wedi rhoi strategaeth wella realistig ar waith i fynd i'r afael â'r pryder hwn ac wedi sicrhau gwelliant clir mewn canlyniadau i garcharorion.

Y Tîm Arolygu

Cynhaliwyd yr adolygiad annibynnol hwn o gynnydd gan:

Charlie Taylor	Prif Arolygydd
Angela Johnson	Arolygydd
Mamta Arnott	Arolygydd Estyn
Rachel Hackling	Arolygydd Estyn
Penny Lewis	Arolygydd Estyn

Appendix II Geirfa

Rydym yn ceisio gwneud ein hadroddiadau mor glir â phosib, a dylai'r rhestr fer hon helpu i egluro rhai o'r termau arbenigol y gallech ddod ar eu traws.

Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)

Y Comisiwn Ansawdd Gofal yw rheoleiddiwr annibynnol iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yn Lloegr. Mae'n monitro, yn arolygu ac yn rheoleiddio gwasanaethau i sicrhau eu bod yn bodloni safonau sylfaenol ansawdd a diogelwch. I gael gwybodaeth am safonau gofal y Comisiwn Ansawdd Gofal a'r camau y mae'n eu cymryd i wella gwasanaethau, ewch i: <http://www.cqc.org.uk>

Arweinydd

Yn yr adroddiad hwn, mae'r term 'arweinydd' yn cyfeirio at unrhyw un sydd â chyfrifoldeb arwain neu reoli yn y system garchardai. Byddwn yn cyfeirio ein naratif at lefel yr arweinyddiaeth sydd â'r capasiti mwyaf i ddylanwadu ar ganlyniad penodol.

Ystyr MAPPA

Trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd: y set o drefniadau y mae'r heddlu, y gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth carchardai yn eu defnyddio i weithio gydag asiantaethau eraill i reoli'r risgiau a berir gan droseddwy'r treisgar, rhywiol a therfysgol sy'n byw yn y gymuned, er mwyn amddiffyn y cyhoedd.

Nodweddion gwarchodedig

Seiliau camwahaniaethu anghyfreithlon (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2010).

Rheol 49 Rheolau Canolfan Gadw Sefydliad Troseddwy'r Ifanc

Awdurdodi plant i gael eu gwahanu oddi wrth y brif boblogaeth.

Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn, ac eithrio logos, wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn y cyfeiriad isod neu: hmiprison.enquiries@hmiprison.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho i lawr yn: [Ein Hadroddiadau – Arolygiaeth Carchardai EF \(justiceinspectorates.gov.uk\)](https://www.justiceinspectorates.gov.uk/ef/)

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Carchardai EF

3rd floor

10 South Colonnade

Canary Wharf

Llundain

E14 4PU

Lloegr

Pob llun yn destun hawlfraint Arolygiaeth Carchardai EF oni nodir yn wahanol.